# Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar
# Papur safbwynt: Argyfwng Costau Byw

- **Mae'r blynyddoedd cynnar yn bwysig**
- **Mae tlodi'n cael effaith negyddol ddwbl ar fabanod a phlant ifanc: mynediad cyfyngedig at gyfleoedd ac effaith straen ar rieni**
- **Yn awr yn fwy nag erioed mae angen help a chefnogaeth ar fabanod, plant ifanc, eu teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol sy'n eu cefnogi**

**Cyd-destun:**

Daw'r argyfwng costau byw presennol ar adeg pan ydym yn dal i ymadfer wedi pwysau ariannol a thrawma'r pandemig.

Mae ymchwil o [2022] yn dangos bod mwy nag un o bob tri phlentyn yng Nghymru yn byw mewn tlodi, a bod mwy na chwarter o'r plant ym mhob un o 22 awdurdod lleol Cymru yn awr yn byw o dan y llinell dlodi.[1] Mewn rhai ardaloedd mae cyfraddau tlodi plant bron yn 40%.

Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn tlodi yn wynebu effeithiau negyddol o ddau gyfeiriad: mae llai o fynediad at gyfleoedd oherwydd diffyg adnoddau, ac mae mwy o straen ar y rhieni a'r teulu o ganlyniad i heriau byw gydag incwm cyfyngedig.

Mae babanod a phlant ifanc iawn yn arbennig o agored i niwed yn sgîl effeithiau tlodi. Mae profiadau plant yn y diwrnodau, yr wythnosau a'r blynyddoedd cyntaf yn dylanwadu'n sylweddol ar weddill eu bywydau. Mae gan bob baban hawl i gael y dechrau gorau mewn bywyd, ond gall trawma heb ei ddatrys neu anawsterau cyson mewn perthnasoedd cynnar gael effeithiau dwys ar iechyd a datblygiad baban gydol oes.

Mae datblygiad iach ynghlwm wrth ansawdd a dibynadwyedd y berthynas rhwng plentyn ifanc a'u rhieni neu eu rhoddwyr gofal. Gall magu plant fod yn heriol ar y gorau, ond gall delio ag effeithiau beunyddiol tlodi gael effaith negyddol ar iechyd meddwl a llesiant rhieni a gofalwyr. Gall hynny yn ei dro effeithio ar safon eu cydberthynas a'u hymlyniad wrth eu plant – gyda goblygiadau posibl gydol oes i'r plentyn os na chaiff hynny ei ddatrys.

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yn cydnabod yn benodol rôl ganolog rhieni a theuluoedd wrth sicrhau bod plant yn tyfu i fyny'n iach, yn hapus ac yn ddiogel. Mae Erthygl 3 yn nodi'n glir bod rhaid i'r Llywodraeth gefnogi teuluoedd yn eu rôl hollbwysig o fagu plant. Yn wyneb bygythiad triphlyg effeithiau parhaus y pandemig, yr argyfwng costau byw ac argyfwng yr hinsawdd, mae teuluoedd yn wynebu pwysau llethol ac mae hawliau plant mewn perygl difrifol. Mae'n edrych yn debygol y bydd yr effeithiau hirdymor yn drychinebus i blant ac yn costio'n ddrud i gymdeithas, ac mae'n hanfodol bod mynediad at gymorth cynnar ar gael i unrhyw ddarpar riant neu riant newydd sy'n cael bod yr heriau'n eu llethu, gan gynnwys y rhai sy'n profi anawsterau iechyd meddwl.

Er gwaethaf difrifoldeb yr heriau cyffredinol hyn, o gael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, gall teuluoedd fyw bywydau hapus a iach.

---

[1] Ymchwil gan Brifysgol Loughborough, ar ran Clymblaid Dileu Tlodi Plant

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**Tystiolaeth Ddiweddar:**

Pan holwyd rhieni yng Nghymru yn ddiweddar, gwelwyd yr heriau mae teuluoedd yn eu hwynebu:

- Mae dau draean o rieni'n pryderu am dalu am fwyd a thanwydd
- Mae 1 o bob 2 yn pryderu am effaith y pandemig ar iechyd meddwl plant
- Mae rhieni'n pryderu am gostau byw yn ystod y 12 mis nesaf, ac am dalu am weithgareddau cymdeithasol plant, yn ogystal â bwyd a thanwydd.[2]

Gwelodd Childline gynnydd o 37% (ar draws y Deyrnas Unedig) yn y plant oedd yn sôn am dlodi/faterion ariannol. Gall tlodi'n aml fod yn sbardun sydd ymhlyg mewn materion eraill, megis camdriniaeth ac esgeulustod.[3]

Nododd adroddiad diweddar gan Achub y Plant mai costau babi newydd oedd un o'r prif resymau pam roedd teuluoedd yn cael Grant Blynyddoedd Cynnar. Nododd hefyd fod 63% o'r plant a gyrhaeddwyd o dan 6 oed. Mae hyn yn cyfateb i dueddiad ehangach yng Nghymru, llae mae aelwydydd sy'n cynnwys plant ifanc (0-4 oed) yn fwy tebygol o fod yn byw mewn tlodi cymharol.[4]

Yn arolwg Tlodi diweddar Plant yng Nghymru, nododd 93% o ymarferwyr mai'r cynnydd mewn costau byw oedd y mater pwysicaf cysylltiedig â thlodi i deuluoedd. Nododd ymarferwyr eu bod yn gweld cynnydd dramatig yn nifer y teuluoedd sy'n methu diwallu eu hanghenion sylfaenol, megis darparu bwyd, trydan a dillad. Fel y dywedodd un ymarferwr, "Does dim un teulu o'r rhai rwy'n gweithio gyda nhw sydd heb ddweud eu bod yn cael trafferth ymdopi nawr".[5]

Mae addysg a gofal plentyndod cynnar o safon yn galluogi teuluoedd i gael mynediad i'r farchnad lafur ac yn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ddatblygiad cynnar plant – yn arbennig plant o deuluoedd llai cefnog. Mae perygl y bydd y pwysau presennol ar wasanaethau gofal plant yn cael effaith negyddol ar ganlyniadau economaidd teuluoedd a chanlyniadau datblygiad cynnar plant[6].

Mae'r bylchau argaeledd ar hyn o bryd, a'r pwysau eithafol ar rai gwasanaethau, ochr yn ochr â phwysau cyllidebol, yn cynrychioli bygythiad uniongyrchol i rai gwasanaethau ymyrraeth gynnar. Mae'r gwasanaeth hyn yn allweddol i atal esgaladu i wasanaethau eraill dwysach sydd eisoes o dan bwysau eu hunain.

---

[2] Dywedodd mwy na phedwar o bob pump o rieni (85%) eu bod yn pryderu ynghylch talu am nwy a thrydan. Dywedodd bron tri chwarter eu bod yn pryderu ynghylch talu am betrol (74%) a thalu am fwyd (72%). Dywedodd bron dau draean eu bod yn pryderu ynghylch talu am weithgareddau cymdeithasol plant a thripiau ysgol (63%). *(Pôl piniwn Nesta i rieni, 18-22 Awst 2022, cynhaliwyd gan Opinium; heb ei gyhoeddi, cysylltwch â helen.wales@nesta.org.uk i gael rhagor o wybodaeth)*

[3] Hogg, S. a Mayes. G. (2022). Casting Long Shadows: The ongoing impact of the COVID-19 pandemic on babies, their families and the services that support them. First 1001 Days Movement and Institute of Health Visiting

[4] - Covid to the Cost Of Living in Wales
https://www.savethechildren.org.uk/content/dam/gb/reports/covid_to_cost_of_living_in_wales_eng.pd

[5] Adroddiad Plant yng Nghymru (2022) ar 6ed Arolygon Blynyddol Tlodi Plant a Theuluoedd
CIW_Poverty_report_2022_English.pdf

[6] Arolwg Blynyddoedd Cynnar, ymchwil arad, 2022

**Ymrwymiadau Polisi sydd eisoes yn bodoli**

Mae gan bob plentyn hawl i'r dechrau gorau mewn bywyd; gan gynnwys safon byw sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Mae'r Cynllun Plant a Phobl Ifanc yn ymrwymo'n glir i hyn, yn ogystal â gwasanaethau a chefnogaeth blynyddoedd cynnar da i rieni neu ofalwyr.

Mae'r gwaith presennol i gryfhau teuluoedd a chymunedau trwy raglenni ymyrraeth gynnar ac ataliaeth megis Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf yn hanfodol bwysig. Mae angen i'r ymrwymiadau i ddarparu gofal plant 2 oed am ddim i bawb a sefydlu system Gofal ac Addysg Plentyndod Cynnar symud yn gyflym ac ymateb i anghenion newidiol.

**Beth sydd angen ei wneud?**

Rydyn ni mewn perygl o ganolbwyntio ar ymatebion tymor byr ac argyfwng. Galwn ar Lywodraeth Cymru i ymateb i'r heriau hyn, ochr yn ochr â meddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hwy. Mae gennym lawer o ymrwymiadau polisi pwysig. Nawr yw'r amser i gyflawni.

Rydyn ni'n galw ar Lywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Sicrhau bod darpar rieni/rhieni plant ifanc yn cael mynediad at y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir, fel eu bod yn gallu rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i'w plant, gan gynnwys gofal plant; cefnogaeth arbenigol amenedigol ar gyfer iechyd meddwl; cefnogaeth i Dadau a chefnogaeth magu plant.
- Rhoi blaenoriaeth i fabanod a phlant ifanc yn y penderfyniadau anodd sydd o'n blaenau, gan gynnwys diogelu gwasanaethau sy'n cefnogi plant a theuluoedd.
- Adolygu a diwygio'r Strategaeth Tlodi Plant, a chyhoeddi Cynllun Cyflawni gan gynnwys a sicrhau mewnbwn gan y rhai yn y Blynyddoedd Cynnar (gan gynnwys Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar).
- Symud ymlaen gyda chynlluniau i ddatblygu ECEC mewn modd sy'n hybu profiad, mynediad (gan gynnwys darpariaeth Cyfrwng Cymraeg), a chynaliadwyedd gwirioneddol deg.
- Rhoi blaenoriaeth i gyllid a pholisi ar sail yr egwyddor bod hyrwyddo tegwch a goresgyn rhwystrau tlodi i blant yn eu blynyddoedd cynnar iawn yn fwy cost effeithiol nag ymyrryd yn ddiweddarach.
- Ymrwymo i fonitro effaith tlodi ar ganlyniadau plant yn fanwl, er mwyn gallu sicrhau bod ymyriadau'n cael y canlyniadau a ddymunir; mae hyn yn arbennig o bwysig yn achos yr asesiad diwedd cyfnod yn y cwricwlwm newydd.
- Gwrando'n rhagweithiol ar fabanod, plant ifanc, a'u teuluoedd i ganfod eu profiadau a'u barn.[7]
- Buddsoddi mewn gwasanaethau cydberthynas rhieni-babanod, gan sicrhau bod cefnogaeth arbenigol ar gael ym mhob ardal yng Nghymru, i helpu i nodi a rhoi sylw i anghenion iechyd meddwl y babanod a'r plant ifanc mwyaf agored i niwed.
- Sicrhau bod teuluoedd sydd â babanod a phlant ifanc iawn yn cael blaenoriaeth fel rhan o unrhyw ymgyrch Hawlio Lles gan y Llywodraeth, er mwyn sicrhau eu bod yn

[7] I gael rhagor o wybodaeth ar sut mae gwneud hyn, ewch i www.childreninwales.org.uk/earlyyearsresources

gallu hawlio'r cymorth ariannol sydd ar gael iddyn nhw gan Lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru, gan gynnwys Talebau Dechrau Iach

*Cynhyrchwyd y papur hwn gan Grŵp Gweithredu'r Blynyddoedd Cynnar, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o BookTrust Cymru, Plant yng Nghymru, Blynyddoedd Cynnar Cymru, Home Start Cymru, Mudiad Meithrin, Achub y Plant, NSPCC Cymru, Chwarae Cymru, Nesta a PACEY Cymru. Ffurfiwyd y Grŵp yn 2020 i ddod â sefydliadau trydydd sector sydd â ffocws ar y Blynyddoedd Cynnar ynghyd, ac i sefydlu llais ar y cyd er mwyn symbylu a gweithredu newid cadarnhaol i'r plant lleiaf.*